

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cynnydd ar hawliau

cymdeithasol-

economaidd ym

Mhrydain Fawr

Adroddiad Diweddaru ar  
Weithredu'r Cyfamod  
Rhyngwladol ar Hawliau  
Economaidd, Cymdeithasol a  
Diwylliannol gan Brydain Fawr  
**Mawrth 2018**



Comisiwn  
Cydraddoldeb a  
Hawliau Dynol

Equality and  
Human Rights  
Commission



# Crynodeb gweithredol ac argymhellion

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi asesu'r cynnydd ar hawliau cymdeithasol-economaidd ym Mhrydain Fawr<sup>1</sup> ers 2016, gan edrych yn benodol ar bedwar prif faes:

- statws hawliau cymdeithasol-economaidd mewn cyfraith ddomestig a pholisi
- yr hawl i safonau byw a nawdd cymdeithasol digonol
- yr hawl i weithio a hawliau yn y gwaith, a
- mynediad at gyfiawnder.

Gwnaed cynnydd mewn sawl maes ers 2016, er enghraifft cyhoeddi darganfyddiadau Archwiliad Anghyfartalwch Hil Llywodraeth y DU, rhoi mewn grym y gofyniad i gyflogwyr hysbysu ynglŷn â'r bwlch rhwng cyflog y rhywiau, cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol, strategaeth 'Gwella Bywydau - Dyfodol Bywyd, Iechyd ac Anabledd' i hwyluso mynediad pobl anabl at waith, a Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru 2016-2020. Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol a geir yn sgil y dystiolaeth ddiweddaraf yn parhau i fod yn destun pryder mawr. Gwelsom heriau cyson mewn perthynas â nifer o'r hawliau economaidd a chymdeithasol, ac mewn ambell achos, gwelsom ddirywiad pellach.

Ym mis Mehefin 2016 y cynhaliodd y Cenhedloedd Unedig ei archwiliad diwethaf o weithrediad yr hawliau a geir yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) yn y DU. Darganfu Pwyllgor y CU ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol nifer o feysydd a oedd yn destun pryder sylweddol, ac argymhellodd fesurau lliniaru penodol yn ei 'Sylwadau Terfynol' (sef ei argymhellion ar gyfer gweithredu). Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Ond trwy gadarnhau ICESCR a chytundebau hawliau dynol rhyngwladol eraill, mae Llywodraeth y DU wedi addo i ymrwymo i'r hyn a geir ynddynt, ac wedi datgan

---

<sup>1</sup> Mae'r cyflwyniad yma'n cwmpasu Prydain Fawr at ddibenion materion a gedwir yn ôl i San Steffan ymdrin â nhw, ac yn nodi'r gwahanol ganlyniadau a dulliau a ddefnyddir os yw'r materion wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n cwmpasu'r ardaloedd sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth yr Alban. Daw'r rhain dan orfodaeth Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (*Scottish Human Rights Commission*).

ei ymrwymiad i gadw ei 'rôl arweiniol yn y dasg o amddiffyn a chynyddu hawliau dynol'<sup>2</sup>.

Dylai hawliau cymdeithasol-economaidd ddarparu gwarant o urddas a chyfiawnder i bawb, yn enwedig y rheiny sydd â'r risg uchaf o dlodi ac amddifadedd materol. Galwn ar Lywodraeth y DU i roi ei hymrwymadau ar waith a mynd ati i weithredu ar y cyd, yn unol â'n hargymhellion ni ac eiddo'r CU.

## **Statws hawliau cymdeithasol-economaidd mewn deddfwriaeth ddomestig a mynediad at gyfiawnder (ICESCR Erthygl 2)**

---

Mae gan Lywodraeth y DU ymrwymiad i wireddu hawliau cymdeithasol-economaidd, dyrannu digon o adnoddau iddynt a gwarantu mynediad at gyfiawnder lle troseddir yn erbyn yr hawliau hynny. Fodd bynnag, ni chafodd llawer o'r hawliau economaidd a chymdeithasol eu hymgorffori mewn cyfraith a pholisi, sy'n golygu pan fydd achos o dorri'r hawliau hyn, nid oes unrhyw gamau unioni effeithiol ar gael. Mae ymadawriad cynlluniedig DU o'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn creu risgiau i amddiffyniad a chyflawniad hawliau cymdeithasol-economaidd.

Mae mynediad at gyfiawnder yn elfen hanfodol o hawliau economaidd a chymdeithasol. Dywedodd y DU yn eglur bod angen i gymorth cyfreithiol fod ar gael lle torrwyd yr hawliau hynny, a bod angen iddo fod ar gael am ddim i'r rheiny na allant dalu amdano. Fodd bynnag, mae mynediad at gyfiawnder y tu hwnt i gyrraedd llawer o bobl ym Mhrydain Fawr, yn enwedig plant, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig, oherwydd y newidiadau i ffioedd cymorth cyfreithiol a ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth (hyd 2017). Amcan y diwygiadau yma oedd ceisio rhwystro ymgyfreitha dianghenraid. Ond ni chyflawnwyd yr amcan. Mewn achosion cyfraith teulu er enghraifft, cwmpodd nifer y bobl a oedd yn mynychu cyfryngu a ariannwyd yn gyhoeddus, a chododd nifer y bobl a oedd yn ceisio'u cynrychioli eu hunain yn y llysoedd teulu. Mae'r Goruchaf Lys wedi dweud bod y cynllun ffioedd am dribiwnlys cyflogaeth yn anghyfreithlon, ond nid yw Llywodraeth y DU wedi addo'n bendant na fydd yn ailgyflwyno ffioedd ar ddechrau achosion sy'n mynd gerbron tribiwnlysoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

Hyd yma, mae Llywodraeth y DU wedi methu â dangos pam mae ei ddiwygiadau o ran treth, polisi a chyfreithiau ers 2010 yn angenrheidiol ac yn deg, a sut y maent yn

---

<sup>2</sup> Department for Exiting the European Union (2017), 'Legislating for the United Kingdom's withdrawal from the European Union'. Ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/604516/Great\\_repeal\\_bill\\_white\\_paper\\_accessible.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/604516/Great_repeal_bill_white_paper_accessible.pdf) [agorwyd: 20 Chwefror 2018]

gyson â safonau hawliau dynol. Nid yw wedi dangos ei fod yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer y mesurau cyni y manylwyd arnynt gan y CU: rhaid i fesurau o'r fath fod yn rhai dros dro, angenrheidiol, cymesur, heb fod yn wahaniaethol, ac yn parchu cynnwys craidd pob hawl.

## Yr hawl i safon byw ddigonol a nawdd cymdeithasol (Erthyglau 9 a 11)

---

Efallai mai'r diwygiadau i'r system nawdd cymdeithasol ers 2010 sy'n cyflwyno'r bygythiad mwyaf sylweddol weithredu hawliau cymdeithasol-economaidd ym Mhrydain Fawr. Mewn sawl achos, nid yw lefelau hawliau nawdd cymdeithasol yn ddigon i dalu am gostau byw sylfaenol. Fis Ionawr 2018, cafodd Pwyllgor Hawliau Cymdeithasol Cyngor Ewrop fod y DU yn torri'r hawl i nawdd cymdeithasol ar y sail bod y cyfraddau lawer yn is na'r ffin tlodi. Mae gan amodoldeb a sancsiynau o ran hawliau nawdd cymdeithasol effeithiau andwyol ar hawlwr, yn enwedig ar eu hiechyd meddwl. Cafodd yr hawliadau effaith arbennig o negyddol ar bobl anabl, teuluoedd â mwy na dau o blant, unig rieni ac aelwydydd lleiafrifoedd ethnig, sydd eisoes yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Cafodd ymchwiliad yn 2016 gan Bwyllgor y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn y DU i hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned i safon byw ddigonol a nawdd cymdeithasol, ac i waith a chyflogaeth, dystiolaeth ddibynadwy bod sefyllfaoedd wedi cyrraedd trothwy troseddau dwys a chyfundrefnol<sup>3</sup>.

Mae dros un rhan o bump o boblogaeth y DU yn byw mewn tlodi cymharol (ar ôl costau tai). Mae tlodi plant cymharol wedi cynyddu ers 2010, ac mae bellach ar ychydig dros 29 y cant (ar ôl costau tai). Mae newidiadau i nawdd cymdeithasol wedi cyfrannu at 400,000 yn rhagor o blant yn byw mewn tlodi cymharol yn 2016 o'u cymharu ag yn 2012-13. Yn ychwanegol at hyn mae anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd yn codi, sy'n effeithio'n negyddol iawn ar allu pobl i arddel eu hawliau economaidd a chymdeithasol.

---

<sup>3</sup> Pwyllgor y CU ar Hawliau Pobl ag Anabledd (2016), 'Inquiry concerning the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland carried out by the Committee under article 6 of the Optional Protocol to the Convention', CRPD/C/15/R.2/Rev.1, para. 113. Ar gael yn: [http://tbinternet.ohchr.org/\\_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2FC%2F15%2FR.2%2FRev.1&Lang=en](http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2FC%2F15%2FR.2%2FRev.1&Lang=en) [agorwyd: 21 Chwefror 2018]

## Yr hawl i weithio ac i amodau gwaith cyfiawn a ffafriol (Erthyglau 6 a 7)

---

Nid yw hawliau yn y gwaith yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol i bawb ym Mhrydain fawr. Er bod cyfraddau cyflogaeth yn uwch nag y buont erioed, mae cyflogau isel, tangyflogaeth, ansicrwydd swyddi oherwydd hunangyflogaeth ansicr a chontractau dim oriau, a chost uchel tai a gofal plant yn parhau i fod yn her sylweddol i'r rheiny sy'n ceisio dianc rhag tlodi. Mae hyn yn digwydd er gwaethaf rhai gwelliannau, megis lleihad mewn gwaith rhan amser anwirfoddol, tangyflogaeth a chyfraddau cyflogaeth dros dro yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Mae amodau gwaith mewn trefniadau gwaith annodweddiadol yn destun pryder: mae rhagor o hyblygrwydd yn aml yn gysylltiedig ag ansicrwydd, cyflog is a cholli rhai mathau o ddiogeliad cyflogaeth. Er enghraifft, mae rhai sy'n gweithio i asiantaethau yn cynyddu'n gyflym. Mae gweithwyr asiantaeth yn tueddu i fod yn ieuengach, yn weithwyr a chanddynt gymwysterau is ac yn aelodau o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Merched, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn gwaith rhan amser â chyflog isel gydag ond ychydig gyfle i gael dilyniant. Er gwaethaf ymdrechion cynyddol y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl, mae bylchau cyflogaeth arwyddocaol yn dal i fodoli, yn arbennig i bobl anabl oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys diffyg addasiadau rhesymol, anabledd i gyrraedd cludiant a'r gweithle, ac agweddau negyddol tuag at bobl anabl.

Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2017 cyflwynwyd gofynion i gyflogwyr gyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol i rai 25 oed a hŷn wedi arwain at y cwmp mwyaf mewn cyflog isel am bedwar degawd.

## Argymhellion

---

### **Gwella statws hawliau cymdeithasol-economaidd mewn cyfraith ddomestig a pholisi**

- Yng nghyd-destun y newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig a ddisgwylir wrth i'r DU ymadael â'r UE, carem ailadrodd ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth y DU ystyried a chyhoeddi dewisiadau ar gyfer gwella statws yr hawliau a ymgorfforir yn ICESCR yn y gyfraith ddomestig. Dylai'r opsiynau hyn gynnwys ystyriaeth o fynediad at gamau unioni domestig am dorri ICESCR, mecanwaith ar gyfer craffu

polisi, deddfwriaeth a mesurau cyllidebol, a mecanweithiau i wneud penderfynwyr yn atebol am achosion o dorri'r ICESCR.

- Mae Adran 1 DC 2010 yn darparu model ar gyfer cyfoethogi statws ICESCR mewn cyfraith ddomestig. Argymhellwn fod llywodraethau'r DU a Chymru yn rhoi ar waith y ddyletswydd ar rai awdurdodau cyhoeddus i roi'r sylw dyledus i fuddion lleihau anfanteision cymdeithasol-economaidd wrth lunio penderfyniadau strategol ar ymarfer eu swyddogaethau dan Adran 1.
- Argymhellwn fod Llywodraeth y DU yn sicrhau nad oes unrhyw symud yn ôl o ran parchu, amddiffyn a gwireddu hawliau cymdeithasol economaidd o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd wrth i'r DU ymadael â'r UE.
- Argymhellwn y dylai llywodraethau'r DU a Chymru ddatblygu cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer hawliau dynol, gan ddysgu o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol yr Alban ar gyfer Hawliau Dynol<sup>4</sup>, sy'n manylu ar gamau gweithredu pendant i roi argymhellion y CU ar waith.

### **Nawdd cymdeithasol a safon byw ddigonol**

Pwysleisiwn eto'r argymhellion a gafwyd yn ein cyflwyniadau i CDESCR y CU yn 2015 a 2016 ac adroddiadau eraill mewn perthynas â'r hawliau i nawdd cymdeithasol a safon byw ddigonol. Dylai Llywodraeth y DU wneud y canlynol, yn anad dim:

- Ymrwmo i gynnal asesiadau effaith cronus o'r holl bolisiau treth a nawdd cymdeithasol o hyn allan, yn unol ag argymhelliad CDESCR y CU yn 2016.
- Ailystyried y polisiau hynny sy'n cyfrannu at yr effaith ariannol negyddol a ddisgrifiwyd yn ein hasesiad effaith cronus, a lle bo'n briodol, ystyried lliniaru effaith y penderfyniadau polisi a luniwyd yn y gorffennol, yn unol â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED).
- Dangos bod y mesurau atchwel yn rhai dros dro, angenrheidiol, cymesur ac anwahaniaethol (sef meini prawf y CU ar gyfer dirywiad), ac nad ydynt yn cynnig hyd yn oed yn llai na lleiafswm craidd o amddiffyniad, gan sefydlu unrhyw fesurau lliniarol y mae gofyn eu cael er mwyn diogelu hawliau pobl.
- Monitro effaith rhewi hawliadau nawdd cymdeithasol am bedair blynedd a sut y mae hyn yn effeithio ar yr hawl i safon byw ddigonol a nawdd cymdeithasol yn erbyn y gofyniadau y manylwyd arnynt yn CDESCR y CU<sup>5</sup>, yn enwedig ar gyfer

---

<sup>4</sup> Scotland's National Action Plan for Human Rights (2013-2017). Ar gael yn: [www.snaprights.info/wp-content/uploads/2016/01/SNAPpdfWeb.pdf](http://www.snaprights.info/wp-content/uploads/2016/01/SNAPpdfWeb.pdf) [agorwyd: 18 Rhagfyr 2017]

<sup>5</sup> Pillay, A. (Cadeirydd, Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol) (cyfathrebiad personol trwy lythyr 16 Mai 2012), CDESCR/48th/SP/MAB/SW. Ar gael yn: <http://www2.ohchr.org/english/bodies/cescr/docs/LetterCESCRtoSP16.05.12.pdf> [agorwyd: 13 Hydref 2017]

unigolion a grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, a sicrhau bod hyn yn unol â phennaf les y plant.

- Ailgyflwyno targedau sy'n gysylltiedig â thlodi incwm i ddileu tlodi plant, a sefydlu mecanweithiau atebolrwydd eglur, gan gynnwys targedau rhwym gydag amserlen osod a dangosyddion mesuradwy, fel rhan o strategaeth tlodi plant gynhwysfawr, gan sicrhau bod pennaf les y plant yn brif ystyriaeth.
- Archwilio'r ffactorau y tu ôl i lefelau uwch o dlodi ymysg unigolion a grwpiau sy'n wynebu risg, er enghraifft plant, pobl anabl a ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a datblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn.

Yn unol â'r argymhellion yn ein cyflwyniad i Bwyllgor y Confensiwn ar Hawliau pobl ag Anableddau yn 2017<sup>6</sup>, galwn ar Lywodraeth y DU i:

- Weithredu ar argymhelliad y Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau i Iunio cynllun eglur sy'n nodi'r meysydd lle mae gan hawlwr Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gostau byw ychwanegol na ellir mo'u hosgoi, yn sgil eu cyflwr, a sicrhau bod pecyn cymorth ariannol ar gael iddynt.
- Gweithio'n ddiymdroi i ddiwygio'r Aseiad Gallu i Weithio er mwyn cynnig dull o ddarparu cymorth mwy hyblyg sy'n addas ar gyfer yr unigol i bobl anabl ddi-waith, gan gynnwys y rheiny gyda'r anghenion mwyaf a chyflyrau sy'n gyfnewidiol. Dylid canolbwyntio ar ddarganfod y potensial i weithio a'r mathau o addasiadau a chymorth a allai symud rhwystrau i unigolion allu cael mynediad i waith ac aros mewn gwaith. Dylai hyn fod ar wahân i unrhyw aseiad ariannol. Ni ddylai cymorth ariannol i bobl na allant weithio, neu lle mae'r addasiadau neu'r cymorth unigol sydd ar gael yn annigonol, fod yn amodol ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â cheisio gwaith neu'n destun sancsiynau budd-daliadau.

## **Mynediad at waith ac amodau yn y gwaith**

Er mwyn gwarantu mynediad at waith ac amodau gwaith cyfiawn a ffafriol ar sail anwahaniaethol, yn unol â gofynion Erthyglau 6 a 7 ICESCR, argymhellwn y dylai Llywodraeth y DU, a lle bo'n briodol, Llywodraeth Cymru yn benodol:

- Ddeddfwriaethu i ymestyn yr hawl i ofyn am weithio hyblyg o'r diwrnod cyntaf un ymhob swydd, oni bai fod yna reswm busnes dilys sy'n golygu nad yw hynny'n bosibl.

---

<sup>6</sup> UKIM (2017), 'Disability rights in the UK; Cyflwyniad a ddiweddarwyd i Bwyllgor y CU ar Hawliau Pobl ag Anabledd, cyn yr archwiliad cyhoeddus o weithrediad y DU o'r CRPD', tt. 17, 18. Ar gael yn: <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/crpd-shadow-report-august-2017.pdf> [agorwyd: 18 Rhagfyr 2017]

- Mynd i'r afael â phroblemau ynghylch argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant sydd wedi'i reoleiddio'n briodol, gan gynnwys trwy sicrhau bod gofal plant o ansawdd uchel sy'n cael ei ariannu'n ddigonol ar gael i bob plentyn, gan gynnwys plant sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
- Gweithredu ar y cyd â chyflogwyr i ddatglo'r potensial ennill cyflog sy'n deillio o addysg trwy wella dewisiadau pynciau a gyrfaeod, cyrhaeddiad addysgol a mynediad at brentisiaethau.
- Ategu ei ymrwymiad a mynd ati i roi ar waith Egwyddorion Arweiniol y CU ar Fusnes a Hawliau Dynol, gan fod hyn yn darparu fframwaith cymesur i annog cwmnïau i feithrin diwylliant sy'n parchu hawliau dynol ac yn ategu ymrwymadau'r wladwriaeth i ddefnyddio'i phwerau rheoleiddio a gorfodi er mwyn amddiffyn hawliau dynol. Rhaid sicrhau bod cwmnïau nad ydynt yn gweithredu'n gyfreithlon fod yn atebol. Dylai'r ddau barti roi ar waith gamau unioni effeithiol i unigolion geisio iawndal os niweidir eu hawliau.
- Sicrhau bod gweithwyr yn ogystal â chyflogwyr yn cael gwell mynediad i wybodaeth am hawliau cyflogaeth a chyfrifoldebau cyflogwyr.
- Diweddarau ac egluro'r fframwaith deddfwriaethol ar hawliau gweithwyr, gan fod i waith annodweddiadol y risg o danseilio hawliau sy'n bodoli eisoes, a gallai hefyd danseilio ymrwymadau'r Llywodraeth i'r hawliau y manylwyd arnynt yn y fframwaith hawliau dynol rhyngwladol. Er enghraifft, nid yw diffiniadau statws cyflogedig yn cyfateb yn rhwydd i ddulliau newydd o weithio, ac mae hyn yn golygu bod unigolion yn cael eu gadael heb amddiffyniad digonol o'u hawliau.
- Er mwyn gorfodi'n effeithiol y Cyflog Byw Cenedlaethol,<sup>7</sup> monitro a hysbysu ei effaith ar ferched a phobl ifanc, ac i ystyried ymestyn y Cyflog Byw Cenedlaethol i'r rheiny dan 25 a chynyddu lefel y cyflog nes ei fod yn Gyflog Byw sy'n ddigonol i gyfarfod â chostau byw mewn unrhyw gwr o'r DU.
- Parhau i fonitro mynediad at waith i grwpiau gyda chyfraddau cyflogaeth cymharol isel a lefel uchel o ddiweithdra, a mynd i'r afael yn effeithiol â'r ffactorau sy'n achosi'r gwahaniaethau yma.
- Cyhoeddi gwybodaeth ystadegol ar raddfa a thueddiadau bylchau cyflog o ran anabledd ac ethnigrwydd ar gyfer gweithwyr amser llawn a rhan amser (yn ogystal â rhyw).

---

<sup>7</sup> Gweler hefyd House of Commons Work and Pensions and Business, Energy and Industrial Strategy Committees (2017), 'A framework for modern employment'. Ar gael yn: <https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmworpen/352/352.pdf> [agorwyd: 18 Rhagfyr 2017].



- Ymgynghori â chyflogwyr ar y ffyrdd fwyaf effeithiol o ymestyn y rheoliadau hysbysu ar fwllch cyflog ar sail rhyw i gynnwys bylchau cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd hefyd.
- Ei gwneud yn orfodol i gyflogwyr gyhoeddi naratif gyda'u data ar y bylchau cyflog ar sail rhyw i helpu'r gweithwyr a'r cyhoedd i ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at hyn a chanolbwyntio ar sut i wella'r gweithle yn sylweddol i ferched.

#### Mynediad pobl anabl at waith a'u hamodau gwaith

- Gwerthuso i ba raddau y mae rhaglenni cymorth cyflogaeth yn helpu pobl anabl ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith, a chymryd camau i wella'u heffeithiolrwydd. Dylai hyn gynnwys gwerthusiad rheolaidd a thryloyw o'r cynnydd a wnaed ar strategaeth 'Gwella Bywydau' Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cynnydd yn cael ei ystyried yn amcan tymor-hir sy'n cael ei flaenoriaethu a'i rannu ar draws pob adran berthnasol o'r Llywodraeth.
- Cyflwyno targedau dros dro a gofyniad statudol i adrodd ar ei ymrwymiad i darged o un filiwn yn fwy o bobl anabl mewn gwaith dros y deng mlynedd nesaf, a hysbysu'n rheolaidd ar y cynnydd a wneir, gan gynnwys y cynnydd yn ôl y grŵp amhariad, a nodi'r camau gweithredu os nad yw'r cynnydd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y newidiadau i'r rhaglen Mynediad at Waith yn cydymffurfio â hawliau pobl anabl, yn arbennig trwy ehangu'r cymorth i bobl â chyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd neu feddygol cymhleth; monitro unrhyw effaith andwyol ar gyfleoedd cyflogaeth, a chyflwyno lliniariadau megis hyblygrwydd cyllid ychwanegol, ymestyn trefniadau pontio ac adolygu lefel y cap.

#### Mynediad lleiafrifoedd ethnig at waith a'u hamodau gwaith

- Rhoi ar waith strategaeth gynhwysfawr, gydgyssylltiedig a hirdymor i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a ddatgelwyd gan yr Archwiliad Anghyfartalwch Hil. Ym maes cyflogaeth, dylai'r strategaeth gynnwys mesurau i annog cyflogwyr i osod targedau i ymgyrraedd atynt ac i gymryd camau pendant, gan gynnwys gweithredu'n bositif i'r graddau helaethaf bosibl, er mwyn gwella amrywiaeth o bob gradd yn eu sefydliadau. Dylai cyflogwyr hefyd gael eu hannog i gyflwyno cynlluniau prentisiaeth o ansawdd a galluogi cyfran uwch o ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig i gael mynediad i'r cyfleoedd yma.
- Rhoi ar waith strategaethau lleol i fynd i'r afael â chyfraddau diweithdra uchel mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys buddsoddi mewn hyfforddiant yn y sectorau a'r diwydiannau lle ceir gorgynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig mewn swyddi isel eu sgiliau ac isel eu cyflog. Dylai fod yn ofyniad i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r PSED i osod amcanion ar gyfer mynd i'r afael â'r bylchau

ethnigrwydd a'r swyddi, gan gynnwys y bylchau mewn swyddi ar lefelau uwch, ac ystyried fel rhan o'r prosesau tendro, y camau gweithredu hynny y mae cyflenwyr yn eu cymryd i fynd i'r afael â'u bylchau cyflogaeth ethnigrwydd eu hunain.

### **Mynediad at gyfiawnder**

Yn unol â'i ymrwymiad dan Erthygl 2(1) ICESCR i sicrhau hawliau cymdeithasol-economaidd yn gynyddol trwy bob modd priodol, dylai Llywodraeth y DU sicrhau nad yw newidiadau sy'n effeithio ar fynediad at gyfiawnder, gan gynnwys y system cymorth cyfreithiol, yn tanseilio'r mynediad at lysoedd ac iawndal effeithiol am dorri hawliau ICESCR.

- Anogwn Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael iddi yn ei hadolygiad o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO):
  - Dylai'r adolygiad gynnwys asesiad o effaith wirioneddol darpariaethau LASPO ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, yn unol ag ymrwymadau PSED Llywodraeth y DU.
  - Dylid blaenoriaethu'r sylw ar effaith y darpariaethau ar bobl anabl, merched, plant, lleiafrifoedd ethnig a gwladolion nad ydynt yn Brydeinig.
  - Dylai'r adolygiad hefyd gynnwys asesiad o effaith y newidiadau ar hawliau pobl fel y'i gwarchodir gan ICESCR a chytundebau hawliau dynol eraill y CU, yn enwedig yr hawliau i nawdd cymdeithasol, safon byw ddigonol gan gynnwys tai, ac addysg.
  - Mae'n arbennig o bwysig i'r asesiadau ystyried yr effaith gronnus ar grwpiau penodol, gan gynnwys pobl anabl, merched a phlant.
  - Dylai'r adolygiad edrych yn arbennig ar y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma i liniaru unrhyw effeithiau andwyol, yn enwedig ar bobl anabl, y rheiny â gafael cyfyngedig ar sgiliau Saesneg a rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig, ac ar weithrediad ac argaeledd y Cynllun Cyllido Achosion Eithriadol a'r Porth Cyngor dros y Ffôn (*Telephone Advice Gateway*), a dylai fanylu ar y camau y bydd yn eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau sy'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol fel y nodir hwy yn yr adolygiad.
  - Os na all y Llywodraeth gynnal yr asesiad yn effeithiol, dylai ystyried comisiynu ymchwil annibynnol.
- Os gwelir bod crebachiad yng nghwmpas cymorth cyfreithiol wedi effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol, neu ar rai o'u hawliau penodol, yna dylai Llywodraeth y DU ystyried ailgynnwys y meysydd cyfreithiol hyn yn y cwmpas.

- Er mwyn cryfhau mynediad at gyfiawnder fel elfen hanfodol o'r hawliau y mae ICESCR yn eu hamodi, dylai Llywodraeth y DU ystyried cadarnhau'r Protocol Dewisol ar y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol mewn perthynas â gweithdrefn gyfathrebu. Trwy ganiatáu cyfathrebu unigol â'r CU, byddai rhai sy'n dioddef tor-hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol honedig ond sy'n methu â defnyddio camau unioni effeithiol y system ddomestig yn cael cyfrwng ar gyfer iawndal. Byddai hefyd yn sicrhau cysonder ar draws y cytundebau, gan fod y DU wedi cymeradwyo'r Protocolau Dewisol ar gyfer deiseb unigol i'r Confensiwn ar Ddileu Pob Ffurf ar Wahaniaethu yn erbyn Merched a'r CRPD.
- Dylai Llywodraeth y DU sicrhau na fydd unrhyw rwystrau newydd yn cael eu codi i fynd i driwlysoedd yng ngoleuni barn y Goruchaf Lys ar ffioedd, a dylai ail-gadarnhau ei hymrwymiad i sicrhau mynediad cyfartal i gyfiawnder i bawb.

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cysylltiedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o wefan y Comisiwn: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad yma at: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com) Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

## Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad yma hefyd ar gael ar ffurf ffeil Microsoft Word o [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com). I gael gwybodaeth am fynediad un o gyhoeddiadau'r Comisiwn mewn fformat amgen, cysylltwch â: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com).

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch, â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth sy'n annibynnol ac am ddim.

Gwefan	<a href="http://www.equalityadvisoryservice.com">www.equalityadvisoryservice.com</a>
Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 i 19:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener) 10:00 i 14:00 (Dydd Sadwrn)
Post	LLINELL GYMORTH FREEPOST EASS FPN6521

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd: Mawrth 2018

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi ar

[www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mawrth 2018



Comisiwn  
Cydraddoldeb a  
Hawliau Dynol

Equality and  
Human Rights  
Commission